Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Monmouth Day Nursery
# The Storehouse
# Howells Place
# Mynwy
# NP25 3ED

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Monmouth Day Nursery

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Monmouth Day Nursery |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Kane Gore |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Kane Gore a Gemma Cann |
| Nifer y lleoedd | 44 |
| Amrediad oedran y plant | O 6 wythnos i 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 16 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 4 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, o 7am tan 6pm, trwy gydol y flwyddyn |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydyw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Nid oes 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg yn cael ei ddarparu yn y gwasanaeth hwn. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn bodloni anghenion iaith Gymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 01/03/2017 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Dyma'r tro cyntaf i'r lleoliad gael arolygiad gan Estyn. |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 15/01/2019 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

# Crynodeb

| **Thema** | **Barn** |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

***Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.***

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd plant o’r Gymraeg

A2 Sicrhau bod gweithdrefnau newid yn cynnig preifatrwydd i bob plentyn

A3 Cynnwys yr holl staff yn llawn mewn prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi’u barn yn dda ac yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol am eu gweithgareddau. Yn ystod sesiynau yn yr awyr agored, mae’r rhan fwyaf ohonynt yn dewis chwarae mewn gwahanol ardaloedd, gan symud yn hyderus o un gweithgaredd i un arall. Mae’r rhan fwyaf o blant yn y feithrinfa yn rhyngweithio â’i gilydd ac ymarferwyr yn hyderus. Er enghraifft, mae babanod yn aml yn defnyddio ciwiau geiriol a di-eiriau i leisio’u hanghenion ac yn cŵan a baldorddi yn gyffrous pan fydd ymarferwr yn siarad yn ysgafn â nhw. Mae bron pob un o’r plant bach yn rhyngweithio’n dda gydag ymarferwyr yn ystod amser cylch a gweithgareddau â ffocws. Mae’r rhan fwyaf o blant cyn-ysgol yn mynegi’u hunain yn dda ac yn gwybod y bydd ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda i’w dymuniadau.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn ffurfio ymlyniadau cadarnhaol â’r ymarferwyr. Os bydd plant yn anesmwytho, mae ymarferwyr yn eu cysuro’n gyflym ac yn eu helpu i ddod i arfer â’r drefn ddyddiol yn rhwydd. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant wedi ymlacio, yn gartrefol, yn gysurus ac yn fodlon yn y lleoliad.

Mae bron bob un o’r plant yn ymddwyn yn dda. Dangosant ddealltwriaeth dda o’r gwahaniaeth rhwng da a drwg a dywedant ‘sori’ a ‘diolch’ pan fo’n briodol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn garedig i’w gilydd, yn aros eu tro ac yn helpu ei gilydd yn effeithiol. Er enghraifft, pan ddechreuodd plentyn newydd yn ystafell y plant bach anesmwytho ac eisiau ei fam, sylwodd plentyn arall ar hyn a dweud wrth ymarferwr.

Mae bron bob un o’r plant yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu. Er enghraifft, mae plant hŷn yn rhyngweithio â’i gilydd yn dda wrth greu dinosoriaid o does, gan drafod eu gwaith yn hyderus. Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio’n dda ar eu tasgau. Maent yn canolbwyntio, yn ymddiddori ac yn cyffroi wrth ddysgu medrau newydd, yn dyfalbarhau â’u tasgau ac yn ymateb yn dda i anogaeth gan ymarferwyr. Er enghraifft, mae babanod sydd ar fin cerdded yn dal yn dynn wrth ddolenni teganau ag olwynion ac yn cymryd camau petrus. Maen nhw wrth eu bodd â’u llwyddiant a chanmoliaeth gan eu hymarferwyr. Mae gan bron bob un o’r plant fedrau hunangymorth da ac maent yn dod yn ddysgwyr annibynnol. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn golchi’u dwylo gyda bach iawn o gymorth ac mae pob un ohonynt yn bwyta’u bwyd yn annibynnol gan ddefnyddio cytleri priodol. Maent yn mynd at, ac yn dewis, yr adnoddau sydd ar gael iddynt yn hyderus. Yn ystod chwarae dan do ac yn yr awyr agored, mae bron bob un o’r plant yn gwneud defnydd da o’r adnoddau sydd ar gael ac yn symud yn rhydd o un gweithgaredd i’r llall.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o’u mannau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu’u medrau siarad a gwrando yn llwyddiannus. Maent yn ymuno â chaneuon a phenillion yn frwdfrydig, yn gwrando’n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau yn dda. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn cyfathrebu’n effeithiol gan ddefnyddio geirfa briodol wrth iddynt chwarae, er enghraifft pan fyddant yn siarad â’i gilydd am y robotiaid maen nhw’n eu hadeiladu o flociau

plastig. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gofyn cwestiynau ac yn mynegi'u hunain yn glir. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn eistedd yn dawel ac yn talu sylw wrth wrando ar storïau sy'n cael eu darllen iddynt. Dangosant ddiddordeb mewn llyfrau ac maent yn eu trin yn gywir, ac mae llawer o'r plant yn dewis edrych ar lyfrau fel rhan o'u chwarae hunanddewis. Mae llawer o blant yn mwynhau darllen llyfrau mawr y dosbarth, fel y rhai am eu gweithgareddau ysgol goedwig. Maent wrth eu bodd yn trafod y ffotograffau a chofio'r hwyl a gawsant. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau gwneud marciau mewn sylweddau gwahanol, fel toes, glŵp ac ewyn eillio. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd at yr ardal gwneud marciau yn annibynnol i ysgrifennu, tynnu lluniau a phaentio. Mae hyn yn datblygu'u medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus. Mae llawer o blant hŷn yn adnabod eu henw'n llwyddiannus ac mae lleiafrif ohonynt yn ysgrifennu'u henw'n gywir ar eu gwaith.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu'u medrau mathemategol cynnar. Maent yn ymuno â chaneuon a phenillion rhif, yn aml yn dal y nifer cywir o fysedd i fyny wrth iddynt ganu. Mae bron bob un o'r plant yn adrodd rhifau i 10 o leiaf yn hyderus, er enghraifft wrth sefyll mewn rhes ac yn ystod cofrestru. Mae tua hanner ohonynt yn adnabod rhifau i 10 yn briodol ac mae llawer ohonynt yn cyfrif hyd at ddeg gwrthrych yn gywir. Mae llawer o'r plant yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd-destun yn addas, er enghraifft pan fyddant yn cymharu eu tyrrau o flociau ac yn trafod tŵr pwy yw'r talaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu ystod addas o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol. Maent yn gweithredu offer cegin electronig yng nghornel y cartref yn briodol ac yn symud cerbydau rheoli o bell yn fedrus. Mae llawer o blant yn gweithio chwaraewr cryno-ddisgiau yn gywir i wrando ar eu hoff ganeuon a chanu gyda nhw.

Mae bron bob un o'r plant yn ymateb yn dda i Gymraeg bob dydd, yn enwedig yn ystod sesiynau grŵp, ond yn anaml iawn y maent yn defnyddio geiriau ac ymadroddion cyfarwydd yn annibynnol. Er enghraifft, mae ychydig blant yn ateb cwestiynau syml am y tywydd yn ystod amser cylch ac mae bron bob un ohonynt yn mwynhau bod yn 'helpwr heddiw' yn eu tro, pan fyddant yn arwain y canu yn frwd. Fodd bynnag, nid yw plant yn datblygu'u medrau Cymraeg y tu hwnt i weithgareddau ffurfiol, dan arweiniad oedolion.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu medrau corfforol da pan fyddant yn chwarae tu allan. Er enghraifft, maent yn cydbwyso'n ofalus ar hyd cwrs rhwystrau ac yn reidio beiciau'n ddiogel heb daro mewn i'w ffrindiau. Mae llawer ohonynt yn datblygu'u medrau echddygol manwl yn llwyddiannus wrth iddynt ddefnyddio siswrn i dorri lluniau bychain a thrafod darnau bach o rawnfwyd i wneud teclynnau bwydo adar. Mae llawer o'r plant hŷn yn datblygu'u medrau datrys problemau a'u medrau meddwl yn llwyddiannus, trwy weithgareddau fel ceisio rhyddhau llythrennau plastig sydd wedi'u gorchuddio mewn blociau o iâ. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'u medrau creadigol yn dda, er enghraifft wrth greu modelau tri dimensiwn o amrywiaeth o ddeunyddiau.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi i ddiogelu ac mae'n hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus. Mae gan yr holl ymarferwyr

ddealltwriaeth dda o'u rôl a'u cyfrifoldebau diogelu ac maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn briodol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cael hyfforddiant cyfredol perthnasol, er enghraifft ar amddiffyn plant, cymorth cyntaf a bwyd a hylendid. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn darparu byrbrydau iach a phrydau wedi'u paratoi'n ffres i fodloni gofynion dietegol y plant yn dda. Mae'r lleoliad wedi gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae bwydydd dietegol penodol yn cael eu cludo o'r gegin i'r bwrdd, fel bod y bwyd i blentyn â gofynion dietegol wedi'i lapio a'i labelu. Mae hyn yn diogelu'r bwyd rhag cael ei halogi. Mae cyfleoedd da i blant wneud ymarfer corff yn ystod eu hymweliadau dyddiol â'r ardal awyr agored a, hefyd, pan fyddant yn mynd am dro y tu allan i'r lleoliad a thrwy'r dref. Mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau priodol wrth roi meddyginiaeth. Maent yn gweithio'n agos gyda rhieni i sicrhau eu bod yn bodloni anghenion plant yn briodol. Maent yn adnabod y plant yn dda ac maent yn ofalgar a chefnogol ohonynt. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r ffordd y mae ymarferwyr yn annog babanod i gysgu, gan ddilyn eu harfer bersonol, arferol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau buddiol i gefnogi plant adeg pontio. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn trefnu cyfleoedd buddiol i blant a rhieni gael ymweliadau rhagarweiniol ac ymweliadau ymgartrefu cyn bod y plant yn symud o'r grŵp babanod i'r grŵp plant bach. Mae'r trefniadau sefydlu ar gyfer plant sy'n dechrau'r cam cyn-ysgol yn effeithiol ac yn hyblyg i anghenion unigol y plentyn.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad plant yn dda. Maent yn fodelau da o ymarfer ac yn atgoffa plant yn gyson i rannu teganau a bod yn garedig i'w gilydd. Maent yn tynnu sylw plant sy'n aflonyddu ac yn eu helpu i hoelio'u sylw'n gyflym ar weithgareddau eraill. Mae'r holl ymarferwyr yn siarad â'r plant mewn ffordd bwyllog ac addfwyn.

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol ar waith i olrhain cynnydd plant. Mae ymarferwyr yn cynnal asesiadau goruchwyliol o blant yn rheolaidd ac yn defnyddio'r rhain yn briodol i gynllunio'r camau nesaf er mwyn datblygu medrau'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r rhain bob amser yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws y lleoliad ac roeddent i'w gweld yn fwy amlwg yn y dulliau olrhain a ddefnyddiwyd ar gyfer y grŵp oedran ieuengaf.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau dychmygus ac ysgogol ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r gweithgareddau hyn yn adlewyrchu ethos y cyfnod sylfaen yn briodol ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant wneud dewisiadau effeithiol a dysgu trwy eu chwarae annibynnol. Mae ymarferwyr yn cyfrif am ddiddordebau plant yn dda. Maent yn cynllunio profiadau dysgu diddorol sy'n hoelio sylw'r plant yn llwyddiannus dan do ac yn yr awyr agored, gan ddatblygu'u medrau ar draws pob maes dysgu yn gynyddol. Er enghraifft, ymwelodd plant â rhandir a phigo afalau yno, a dod â'r rhain yn ôl i'r lleoliad i wneud crymbl afalau a'i fwyta.

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm ac yn dangos dealltwriaeth sicr o ba bryd i ymyrryd er mwyn helpu i symud dysgu plentyn yn ei flaen a phryd i gamu yn ôl er mwyn cefnogi dewisiadau annibynnol. Gwnânt ddefnydd effeithiol o holi i hoelio sylw plant, i wirio'u dealltwriaeth ac i ddatblygu ymdeimlad o chwilfrydedd yn y plant. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn herio meddwl y plant yn effeithiol wrth eu hannog i adeiladu cwrs rhwystrau heriol i'w gilydd.

Mae ymarferwyr yn fodelau da o iaith. Mae hyn yn helpu i ddatblygu medrau cyfathrebu'r plant a'u geirfa fathemategol yn llwyddiannus. Mae'r holl ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o sesiynau grŵp arferol. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon cyson trwy gydol gweddill y sesiynau. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd yn rheolaidd i blant ddysgu am fywyd a thraddodiadau Cymru. Er enghraifft, maent yn trefnu cyfleoedd buddiol i blant cyn-ysgol ymweld â'r llyfrgell leol bob wythnos i fynychu sesiwn adrodd stori yn Gymraeg.

Megis dechrau datblygu y mae'r ddarpariaeth ar gyfer defnydd y plant o TGCh. Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant yn dda wrth ddefnyddio offer TGCh ond nid ydynt bob amser yn cynllunio gweithgareddau penodol i ddatblygu medrau'r plant yn ddigon rheolaidd.

Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cynnal arsylwadau rheolaidd a defnyddiol o'r plant i ddiweddaru cofnodion asesu ac i nodi'r camau nesaf mewn dysgu. Maent yn trafod cynnydd plant yn anffurfiol ac mae hyn yn helpu i gynllunio gweithgareddau at y dyfodol. Mae ymarferwyr yn rhoi diweddariadau anffurfiol defnyddiol i rieni ar yr hyn y mae eu plant wedi bod yn ei ddysgu.

Mae'r amrywiaeth o weithgareddau diddorol a'r perthnasoedd da rhwng oedolion a phlant yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Er enghraifft, mae'r plant hŷn yn mwynhau rhannu'r llyfrau a wnaed gan yr ymarferwyr am brofiadau ysgol goedwig y plant gyda'i gilydd.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a saff. Er enghraifft, maent yn cwblhau gwiriadau dyddiol o'r amgylcheddau dan do ac awyr agored i sicrhau eu bod yn ddiogel i blant eu defnyddio. Mae gan y lleoliad system effeithiol o gyfrineiriau ar waith i sicrhau bod plant yn cael eu casglu gan ofalwyr a benodwyd yn briodol.

Mae'r safle'n lân ac yn cael ei gynnal a chadw'n dda. Yn ddiweddar, aildrefnwyd ystafelloedd y babanod a'r plant bach, gan arwain at amgylcheddau gwell o lawer i'r ddau grŵp o blant. Cafodd prif ystafell y babanod, er enghraifft, ei phaentio'n ddiweddar ac mae'n olau, yn lân ac yn drefnus. Mae'r ardal newydd ei charpedu hefyd yn galluogi'r plant i eistedd ar y llawr i ymlacio, gwrando ar storïau a rhyngweithio ag ymarferwyr.

Mae llawer o adnoddau'n cael eu storio'n briodol yn ôl grŵp oedran, mewn blychau a droriau wedi'u labelu, a gall y plant fynd atynt. Mae hyn yn eu galluogi i wneud dewisiadau annibynnol am eu chwarae. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau sy'n cael

eu storio yn ystafell y babanod wedi'u labelu'n glir. Felly, nid yw'r plant iau yn gallu dewis yr offer y maen nhw eu heisiau eu hunain. Mae gan y lleoliad amrywiaeth dda o deganau ac offer i annog ymwybyddiaeth ddiwylliannol, er enghraifft llestri coginio a dillad gwisgo i fyny o ddiwylliannau a thraddodiadau amrywiol.

Mae gan y lleoliad gyfleusterau toiled priodol sy'n lân ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda. Mae plant hŷn yn mynd atynt yn annibynnol ac mae staff yn dilyn gweithdrefnau addas wrth newid cewynnau plant iau. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer newid cewynnau'r plant hŷn yn y grŵp plant bach bob amser yn rhoi digon o breifatrwydd iddynt.

Mae'r safle'n groesawgar, yn gynnes ac yn gysurus, ac yn cynnig amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu. Mae ymarferwyr yn arddangos crefftwaith y plant, ffotograffau a phosteri addysgol ar hyd a lled y lleoliad, gan gyfrannu at amgylchedd symbylol. Mae'r lleoliad wedi'i drefnu dros dri llawr ac mae'r drefn yn sicrhau bod digonedd o le i bob grŵp oedran chwarae a gorffwys. Er enghraifft, mae ardal ar gyfer crefftau a chwarae anniben ar gael i ystafelloedd y plant bach a'r babanod. Mae ystafell grudiau ar wahân wedi'i neilltuo i'r babanod orffwys yn dawel a chysgu.

Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys ardaloedd naturiol i'r plant eu harchwilio ac i ddysgu, ac mae ardal addas wedi'i gorchuddio yn galluogi'r plant i fynd allan ym mhob tywydd. O ganlyniad, mae plant yn elwa o gyfleoedd uniongyrchol i dyfu planhigion a gweld y newidiadau yn y tymhorau.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan y person cofrestredig ddisgwyliadau uchel ar gyfer ei staff ac mae'n trefnu'r lleoliad yn dda. Mae'n cynnig arweinyddiaeth glir ac mae'n rhannu'i weledigaeth yn effeithiol gyda rheolwr ac ymarferwyr y lleoliad. Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn cydweithio'n dda i sicrhau bod sesiynau'n rhedeg yn hwylus ac maent yn chwilio'n gyson am ffyrdd o wella'r ddarpariaeth i'r plant. Mae'r person cofrestredig yn cyfathrebu ag ymarferwyr yn dda trwy gysylltiad dyddiol a chyfarfodydd â holl staff y lleoliad. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn gyson. Mae'r person cofrestredig a'r person â gofal yn monitro gwaith y lleoliad ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn effeithiol trwy gyfleoedd hyfforddi rheolaidd, fel hyfforddiant diweddar ar ddatblygu'r prosesau hunanwerthuso.

Mae gweithdrefnau priodol yno ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r person â gofal yn gweithio gydag arweinwyr ystafell i adolygu cynnydd a chytuno ar feysydd i'w datblygu. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn gofyn barn rhieni a staff trwy holiadur. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r lleoliad yn sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o anghenion y lleoliad a'i feysydd i'w datblygu. Maent yn blaenoriaethu'r meysydd allweddol i'w datblygu yn briodol ac yn rhoi cynlluniau gweithredu addas ar waith, sy'n cynnwys adnoddau ac amserlenni. Er enghraifft, blaenoriaeth ddiweddar ar gyfer gwella oedd ad-drefnu'r ystafell ddosbarth gyn-ysgol i gefnogi dysgu annibynnol. O ganlyniad, mae deunyddiau crefftau a gwneud marciau o fewn cyrraedd plant yn well ac mae hyn wedi gwella'u medrau gwneud marciau a darlunio yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cynnwys yr holl ymarferwyr ddigon ym mhrosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

y lleoliad.  O ganlyniad, nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon clir bob amser o'r targedau presennol ar gyfer gwella i'w galluogi i fod yn gwbl effeithiol yn eu rolau.

Mae gan y lleoliad brosesau recriwtio diogel a sefydledig.  Mae gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer goruchwylio staff, sy'n cynnwys arfarniadau ac arsylwadau rheolaidd o ymarfer, yn effeithiol.  Mae hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl staff yn cynnal safonau'r lleoliad a bod ganddynt gyfleoedd i fanteisio ar hyfforddiant pellach.

Mae ymarferwyr yn elwa o arweiniad a chymorth ar gyfer gwella'r amgylchedd dysgu a'r profiadau a gynigiant i'r plant.  Er enghraifft, mae ymarferwyr wedi defnyddio hyfforddiant a chyngor yn werthfawr i ddatblygu llais y plant wrth gynllunio gweithgareddau at y dyfodol.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol â rhieni, yr ysgol leol a'r gymuned, sy'n ehangu lles a dysgu'r plant yn effeithiol.  Un o gryfderau'r ddarpariaeth yw'r defnydd buddiol ar yr amgylchedd lleol.  Mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol goedwig yn wythnosol trwy amrywiaeth eang o brofiadau blaengar a difyr.  Er enghraifft, dysgant am wledydd tarddu amrywiol rhai o'r coed ac maent yn cyfarch y coed yn iaith y wlad honno.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'r holl gyllid ac adnoddau dysgu sydd ar gael yn ddyfeisgar.  Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/03/2019